



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Menter Iaith
Rhondda Cynon Taf



**PARC
YNYSANGHARAD**

PARTI PONTY

**15.07.17
11 - 7**

GŴYL GYMRAEG I BAWB

YOUR WELSH FESTIVAL

www.menteriaith.cymru

01443 407570



Menter iaith Rhondda Cynon Taf

Mae'r Fenter yn dathlu ei phenblwydd yn 25 eleni. Dechreuodd bywyd y Fenter o dan yr enw Menter Taf Elai a hi oedd yr ail Fenter i gael ei sefydlu yng Nghymru. Newidiwyd ei henw i Fenter iaith Rhondda Cynon Taf pan newidwyd ffiniau'r Sir ym 1996. Eisteddfod yr Urdd Taf Elai oedd sbardun dechreuad y Fenter ac eleni croeswyd yr Eisteddfod yn ôl i'r cyffiniau 25 mlynedd yn ddiweddarach. Dewch o hyd i staff y Fenter ar y maes er mwyn i chi fedru ychwyn eich cyfarch penblwydd at ein fideo penblwydd neu ewch i arbrofi gyda phethau penblwydd yn y babell wyddoniaeth neu greu crefft penblwydd yn yr ardal grefft. Beth bynnag yr hoffech ei wneud, cofiwch wneud hynny gyda gwen a chyfarch o benblwydd hapus i'r Fenter. Trefnwyd y digwyddiad yma gan Menter iaith Rhondda Cynon Taf mewn partneriaeth â Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Menter iaith RhCT are celebrating their 25th birthday this year. The mentor started its life under the name Menter Taf Elai and was the second Menter iaith to be created in Wales. They changed their name to Menter iaith Rhondda Cynon Taf when the county's boundaries were changed in 1996. The National Urdd Eisteddfod in Taf Elai 1991 was the starting point for the Menter and this year we welcomed the Eisteddfod back near to home turf after 25 years. Come and find the Menter iaith staff so that you can add your birthday greeting to our birthday video or go and experiment with some birthday experiments in the science area or create some birthday craft in our craft area. Whatever you choose to do please do so with a smile and a birthday wish for Menter iaith Rhondda Cynon Taf. This is an event organised by Menter iaith Rhondda Cynon Taff in partnership with Rhondda Cynon Taf County Borough Council.

MENTER IAITH RHONDDA CYNON TAF

Trefnwyd y digwyddiad yma gan Menter iaith Rhondda Cynon Taf mewn partneriaeth â Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae Menter iaith Rhondda Cynon Taf yn darparu, cydlynu a hyrwyddo gweithgareddau a gwasanaethau Cymraeg ar hyd a lled yr ardal. Anelir at gefnogi defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl o bob oed ar draws ein cymunedau amrywiol.

Mae'r Fenter yn fan cyswllt i fudiadau Cymraeg a chymunedol eraill o fewn y Sir, ac yn gweithio mewn partneriaeth â nhw. Trwy gweithredoedd, yn ceisio sicrhau tegwch, chwarae teg a hawliau cyfartal i'r iaith Gymraeg o fewn Rhondda Cynon Taf.

This is an event organised by Menter iaith Rhondda Cynon Taff in partnership with Rhondda Cynon Taf County Borough Council.

Menter iaith Rhondda Cynon Taff provide, co-ordinate and promote Welsh language activities and services across the county. Their aim is to support the use of the Welsh language amongst people of all ages across all communities.

Menter iaith are a point of contact for other Welsh and community organisations in the county, and work in partnership with them. Through their work trying to ensure that the Welsh language is acknowledged and has equal rights within Rhondda Cynon Taff.

2CAN PRODUCTIONS:

Cwmni rheoli digwyddiadau yw 2Can Productions Limited sy'n gweithio o Gaerdydd, ar hyd a lled Cymru a'r DU. Mae'r cwmni yn meddu ar brofiad helaeth o ddarparu gwasanaethau i ystod eang o gleientiaid mewn ystod yr un modd eang o sefyllfaoedd a digwyddiadau.

2Can Productions Limited are an event management company working from Cardiff, throughout Wales and the UK. The company have extensive experience of providing services to a wide range of clients in a similarly wide range of situations & events.



MARTYN GERAINT

Sesiwn llawn hwyl ar gyfer plant o bob oed! Yn nhraddodiad MG, bydd pob cân yn rhyngweithiol gyda digon o gyfle i'r plant (a'u rhieni!) i ymuno yn yr hwyl ac mae'n siwr fydd ambell i Afal, Oren a BANANA yn ymddangos hefyd.

A fun filled session for children of all ages with plenty of songs and even a magic BANANA or 2! Come and enjoy these excellent interactive songs from one of Wales' most experienced children's entertainers - and he's from Pontypridd too!



HEINI

Sesiwn hwyliog ac egniol yn ysbrydoli plant i gadw'n heini trwy ddefnyddio eu dychymyg a chael hwyl wrth wneud!

An energetic and fun session for children encouraging them to keep fit and use their imagination while doing so!



BLAS AR Y DELYN / HARP TASTER BETHAN NIA

Y delynores dalentog leol Bethan Nia fydd yn ychwanegu naws Cymreig i'r babell gyda gweithdai blas ar y delyn.

The local talented harpist Bethan Nia will be introducing a Welsh feel to the tipi with harp taster workshops.



GWEITHDY CREADIGOL / CREATIVE WORKSHOP - SIÔN TOMOS OWEN

Mae Siôn Tomos Owen yn gartwnydd, awdur a chyflwynydd Pobol y Rhondda ar S4C. Cafodd "Cawl", ei lyfr o Straeon byrion, barddoniaeth, traethodau a chomics dwyieithog, ei gyhoeddi gan Parthian yn 2016. Mae Siôn yn cynnal gweithdai creadigol gyda'i gwmni Creasion.

Siôn Tomos Owen is a cartoonist, writer and presenter of the documentary series Pobol y Rhondda on S4C. "Cawl", his book of short stories, poetry, essays and bilingual comics was published by Parthian in 2016. Siôn runs creative workshops with his company Creasion.



SESIYNAU HWYL A SBRI / FUN AND FREE PLAY

Sesiynau hwyl a sbri a chwarae rhydd gyda staff clybiau ar ôl ysgol a chynlluniau chwarae Menter iaith RhCT... Cyfle i gwrdd â rhai o'n staff arbennig a chael blas o wasanaethau plant y Fenter.

Fun sessions and free play with Menter iaith RCT's afterschool club and playscheme staff. An opportunity to meet some of our excellent staff and have a taste of our children's services provision.





AMSERLEN • TIMETABLE



Y CWTSH TEULU / FAMILY	PRIF LWYFAN / MAIN STAGE ALUN JJ SNEED - DJ GWYNDAF LEWIS – COMPÈRE	LLWYFAN CYMRYD RHAN / TAKING PART STAGE GTFM – DJ MAGI DODD - COMPÈRE	CANOL Y DREF / TOWN CENTRE	LLWYFAN YR YSGOLION / SCHOOL STAGE	CHWARAEON YR URDD SPORTS	DYSGWYR / WELSH LEARNERS (PABELL PANED A CHACEN TEA AND CAKE TENT)
Sesiwn hwyl a sbri / <i>Fun and free play</i> Menter Iaith RhCT 11:00 - 11:30	Cara Cullen 11:00-11:30	Lansiad Parti Ponty 17 Launch – Gyda gwahoddedigion / <i>with guests</i> 11:00 – 11:30	Y.G Dolau 11:00 - 11:15	Y.G Dolau 11:30 - 11:45	Pêl-droed / <i>Football</i> 11:00-12:00	
Martyn Geraint 11:30 - 12:15	Grŵp dawns Kinetics <i>Dance Group</i> 11:35-11:50	Aneirin Karadog 11:30 – 12:00	Y.G.G Llyn y forwyn 11:30 - 11:45	Y.G.G Llyn y forwyn 12:00 - 12:15	Rygbi tag / <i>Tag rugby</i> 12:00-13:00	Mynediad Meetup 11:00-12:00
Siôn Tomos Owen Gweithdy creadigol / <i>Creative workshop</i> 12:45 - 13:30	Panda Fight 12:00-12:30	Iwcs – Grŵp ukelele Group 12:00 – 12:30	Y.G.G Bodringallt 12:00 - 12:15	Y.G Bodringallt 12:30 - 12:45		
Heini 13:30 - 14:00	Eady Crawford 12:40-13:10	Côr yr Einion 12:30 – 13:00	Y.G.G Ynyswen 12:30 - 12:45	Y.G.G Ynyswen 13:00 - 13:15	Pêl-foeli / <i>Volley ball</i> 13:00-14:00	Sylfaen Meetup 12:00-13:00
Bethan Nia Blas ar y Delyn / <i>Harp taster</i> 14:15 - 14:45	Jack Ellis 13:20 –13:50	Ysgol Gyfun Rhydywaun 13:00 – 13:30	Ysgol Llanhari 13:00 - 13:15	Ysgol Llanhari 13:30 - 13:45	Saethyddiaeth / <i>Archery</i> 14:00-15:00	Parti diwedd blwyddyn i ddysgwyr dysgu Cymraeg Morgannwg / <i>End of year party for Glamorgan Welsh for adult learners</i> 13:00-14:00
Martyn Geraint 15:00 - 15:45	Ragsy 14:00-14:30	Tadau Trisant 13:30 – 14:00	Y.G.G Gartholwg 13:30 - 13:45	Y.G.G Gartholwg 14:00 - 14:15		
Heini 16:00 - 16:30	Gai Toms 14:40-15:20	Bro Taf 14:00 – 14:30	Y.G.G Pont Sion Norton 14:00 - 14:15	Y.G.G Pont Sion Norton 14:30 - 14:45	Golff / <i>Golf</i> 15:00-16:00	
Bethan Nia Blas ar y Delyn / <i>Harp taster</i> 16:30 - 17:00	Amy Wadge 15:35-16:05	Ysgol Gyfun Cymer 14:30 – 15:00	Y.G.G Evan James 14:30 - 14:45	Y.G.G Evan James 15:00 - 15:15	Tenis / <i>Tennis</i> 16:00-17:00	Cwis / <i>Quiz</i> 14:00-14:30
Siôn Tomos Owen Gweithdy creadigol / <i>Creative workshop</i> 17:15 - 18:00	Daniel Lloyd a Mr Pinc 16:20-17:00	Bois y Frenni 15:00 – 15:30	Eady Crawford 15:30 – 16:00	Cast Sioe Cynradd / <i>Cast of Primary show "Bracchi"</i> Eisteddfod yr Urdd Penybont ar Ogwr Taf ac Elai. 16:00 – 16:30	Cwrs rhwystrau – Parasiwt <i>Obstacle course - Parachute</i> 17:00-18:00	Gwers Flasu / <i>Taster session</i> 15:30-15:45
Dawnsio creadigol i bawb Artis Cymuned / <i>Creative dance for everyone</i> Artis community 18:00 - 18:30	Geraint Jarman 17:15-18:15	Ysgol Gyfun Garth Olwg 16:00 – 16:30	Jack Ellis 16:30 – 17:00			
Sesiwn hwyl a sbri / <i>Fun and free play</i> Menter Iaith RhCT 18:30 - 19:00	Chroma 18:30-19:00	Cadfridog 16:30 – 17:00				
		Jamie Bevan 17:00 – 17:30				
		Meic Agored / <i>Open mic</i> 18:00 – 19:00				





PRIF LWYFAN • MAIN STAGE

GERAINT JARMAN



Roedd hi'n 1976 pan ddaeth albwm gyntaf Geraint allan, ac ystyriwyd Gobaith Mawr y Ganrif fel cynnyrch artist oedd am wneud argraff sylweddol ar roc Cymraeg. Eto, anodd fyddai credu yr adeg hynny y byddai'n parhau i gyfansoddi a rhyddhau heb argoel ei fod am stopio ymheli i'r mileniwm newydd. Derbyniodd Geraint Jarman wobwr Cyfraniad Oes yng ngwobrau'r Selar 2017 yn Aberystwyth. Mae'r albwm diweddaraf - "Tawel yr Tymor" wedi eu rhyddhau, union 40 mlynedd ers ei albwm cyntaf cael ei rhyddhau.

Jarman grew up in Cardiff and his career began in the 1960s as a poet and composer, writing for Heather Jones. He was a member of Y Bara Menyn with Jones and Meic Stevens before establishing himself as a solo artist. He also wrote "Y Brawd Houdini", one of Stevens' most popular recordings. He introduced genres such as reggae into Welsh music and released many albums as a solo artist and with his band as Geraint Jarman a'r Cynganeddwy'r. His first album (Gobaith Mawr y Ganrif) released in 1976 by Sain. In the late 1970s he was championed by John Peel who introduced him to a wider audience through his BBC Radio 1 show. 40 years later, he has released another album "Tawel yr Tymor".

CHROMA



Triawd o Rhondda Cynon Taf sy'n chwarae cerddoriaeth roc amgen (alternative rock), wedi ei hysbrydoli gan fandiau fel Marmozets, Biffy Clyro a Reuben. Ers 2015, maent wedi ennill Brwydr y Bandiau C2 Radio Cymru, wedi rhyddhau ei albwm cyntaf a wedi ennill dwy wobwr am y band newydd gorau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pethau'n argoeli'n dda i'r band ifanc yma. Mae ei EP diweddaraf ar gael ar iTunes.

An alternative rock three piece from Rhondda Cynon Taf inspired by bands such as Marmozets, Biffy Clyro and Reuben. Since 2015 they have won C2 Radio Cymru's Brwydr y Bandiau competition, have released their first album and have won two prizes for the best new Welsh and English band. Things are looking very promising for this young band. Their latest EP is available on iTunes.

DANIEL LLOYD A MR PINC



Eleni, mae Daniel Lloyd a Mr Pinc wedi ailffurfio ar ol 7 mlynedd o doriad, ac yn perfformio ar hyd a lled y wlad yn ogystal a threulio cyfnod yn y stiwdio yn recordio deunydd newydd. Ffurfiwyd y grŵp yn 2003 pan oedd rhai aelodau yn fyfyrwyr yn y Brifysgol ym Mangor, gan brysur wneud enw iddyn nhw eu hunain fel un o fandiau ifanc mwyaf gyffrous y cyfnod, efo'u caneuon bachog fel "Goleuadau Llundain" a "Eldon Terrace". Mae'r band yn falch o fod nol yn perfformio a recordio unwaith eto, gyda swm ac egni fresh... a hyd yn oed 'chydig fwy o sens!

Mae eu trac diweddaraf "Mesur y Dyn" ar gael ar wasanaethau arferol ar-lein a siopau digidol.

This year Daniel Lloyd and Mr Pinc have reformed after a 7 year break, and perform all over the country as well as spending time in the studio recording new material.

The band was formed in 2003 when some of the band members were students at Bangor University and they soon made a name for themselves as one of the most exciting young bands of the time with their catchy songs such as 'Goleuadau Llundain' and 'Eldon Terrace' The band are pleased to be performing and recording again with a new sound and energy...and also a little bit more sense!

Their most recent track 'Mesur y Dyn' is available through normal services, online and digital shops.



PRIF LWYFAN • MAIN STAGE

AMY WADGE



Mae Amy Wadge yn enillydd "Grammy" ac yn cael ei ystyried yn un o'r cantoresau / cyfansoddwraidd mwyaf llwyddiannus ar draws y wlad. Dros gyfnod o bum albwm solo, dau cydweithrediadau, nifer o gyfansoddiadau ar gyfer artistiaid a channoedd o berfformiadau byw ar hyd a lled y byd, mae hi wedi sefydlu corff ragorol o waith. Mae gyrfa Amy bellach yn canolbwyntio ar ysgrifennu caneuon gydag artistiaid llwyddianus ledled y byd wrth ysgrifennu nifer gydag Ed Sheeran gyda'r gan diweddaraf, "Thinking out Loud" yn ennill "Can y Flwyddyn" yn y Grammy Awards wrth werthu dros 13 miliwn o gopiau. Mae wedi cyd-gyfansoddi 4 can oddi ar ei albwm newydd "Divide". Yn ogystal ag Ed, mae wedi ysgrifennu gydag artistiaid megis James Blunt, Jason Mraz, Niall Horan, Paloma Faith a llawer mwy.

Grammy winner Amy Wadge is widely regarded as one of the country's most successful female singer/songwriters. Over the course of five solo albums, two collaborations, numerous compositions for other artists and hundreds of live performances all over the globe, she has established an outstanding body of work. Her voice is simply amazing with a breathtaking range and emotional impact while her songwriting continues to surpass most of her contemporaries. Amy's career is now largely focused on writing songs with Artists and achieved world wide success with Ed Sheeran writing numerous songs with him most notably Thinking out Loud that won them 'song of the year' at the Grammy and has sold more than 13 million copies. She's has four songs on his latest album Divide. As well as Ed she has written with James Blunt, Jason Mraz, Kacey Musgraves, Keith Urban, Carrie Underwood, Janelle Monae, Brandy Clark, Niall Horan, Paloma Faith, Una Healy, James Morrison and many others.

GAI TOMS



Bydd Gai Toms yn rhyddhau ei 7fed albwm solo 'G W A L I A', eleni mewn amser i chi gyd-ganu yn Parti Ponty. Mae Gai Toms yn edafedd cryf a lliwgar ym mrethyn y byd canu Cymraeg gyda'i albwm diweddaraf 'The Wild, the Tame and the Feral' (2015) yn dangos ei fod a'r gallu yn Saesneg hefyd. Rwan yn gyfansoddwr brwd gyda sawl album dan y belt. Mae o hefyd yn gitarydd i'r band roc-amgen Brython Shag.

Gai Toms will be releasing his 7th solo album 'G W A L I A' this year in time for you to sing at Party Ponty. Gai Toms is a strong and colourful thread in the woolen cloth of the Welsh singing world with his latest album 'The Wild, the Tame and the Feral' (2015) showing his ability in English also. Now he is an enthusiastic composer with lots of albums under his belt. He is also a gitaurist for the alternative rock band Brython Shag.

Hefyd yn perfformio / Also performing...

Ragsy

Jack Ellis

Eady Crawford

Panda Fight

Grŵp dawnio Kinetics Dance group

Cara Cullen





LLWYFAN CYMRYD RHAN TAKING PART STAGE

SLOT Y BEIRDD / POET SLOT

ANEIRIN KARADOG



Sesiwn drafod barddoniaeth a chlywed rhai o weithiau bardd a phrifeirdd lleol / *Poetry discussion session and a chance to hear some of the works of local poets.*

Aneirin Karadog – Gŵr lleol a enillodd gadair yr Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy yn 2016. Mae'n arbenigwr ar berfformio barddoniaeth / *A local poet who won the chair at the National Eisteddfod in Abergavenny 2016. He is a highly regarded performance poet.*

Cyril Jones – Prifardd sy'n byw ym Mhenter'r Eglwys fydd yn cadeirio'r drafodaeth / *Poet from Church Village who will be chairing the discussion.*

CYRIL JONES



IWCS (GRŴP UKELELE GROUP)



Sefydlwyd ail gangen o IWCS yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg, Pentre'r Eglwys ar Fedi 26ain, 2016. Mae'r gangen yma'n cyfarfod yn wythnosol pob nos Lun o 7 tan 9 o'r gloch.

A second branch of IWCS was established at Gartholwg Lifelong Learning Centre, Church Village on September 26th, 2016. This branch meets weekly from 7 until 9 o'clock every Monday evening.

BOIS Y FRENNI



Boy band hynaf Cymru yw Bois y Frenni, sydd newydd ddathlu ei penblwydd yn 75 mlwydd oed. Parti o Sir Benfro yw rhain. Cafodd y parti ei sefydlu yn wreiddiol yn 1940 gan y bardd a'r cyfansoddwr WR Evans er mwyn diddanu cynulleidfaoedd, codi ysbryd pobl yn yr ardal a darparu adloniant ysgafn mewn cyfnod anodd yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

'Bois y Frenni' from Pembrokeshire are Wales' oldest boy band, who have recently celebrated their 75th birthday. The party was originally established in 1940 by the poet and composer WR Evans in order to entertain audiences, raise spirits and provide light entertainment during a difficult period through the second world war.

JAMIE BEVAN



Mae Jamie Bevan yn ganwr a gitarydd Cymraeg poblogaidd iawn o Merthyr Tudful ac yn ffrind i'r Fenter. Yn canu caneuon adnabyddus Cymraeg a rhai gwreiddiol hefyd mae ei perfformiadau yn fywiog bob tro ar gynulleidfaoedd bob amser yn ymuno mewn!

Jamie Bevan is a very popular Welsh singer and guitarist from Merthyr Tydfil and a friend of Menter laith. Singing popular well known Welsh songs along with some original his performances are always lively and entertaining and he never fails to get the audience to join in!

HEFYD / ALSO....

Côr yr Einion,
Tadau Trisant,
Cadfridog,
Adran Bro Taf,

Ysgol Gyfun Rhydywaun,
Ysgol Gyfun Cymer,
Ysgol Llanhari a
Ysgol Gyfun Gartholwg

gyda sesiwn meic agored ar ddiwedd y dydd / *with an open mic session at the end of the day.*

BAR



Byddwch chi ddim yn sychedig ym Mharti Ponty eleni. Dewch draw i'r bar am ddiod oer neu peint neu ddau gyda ffrindiau!

You won't be thirsty in Parti Ponty this year. Pop into the bar for a nice cool drink or a pint or two with friends!

ALTERNATIVE EVENTS

CHWARAEON YR URDD SPORTS

Pêl-droed / Football

Rygbi tag / Tag rugby

Pêl-foeli / Volley ball

Saethyddiaeth / Archery

a llawer mwy / and lots more

Amserlen llawn ar amserlen yr ŵyl / *Full timetable listed on festival timetable*



Urdd



ARDAL GWYDDONIAETH SCIENCE AREA

Mae Technocamps yn cydweithio gyda'r Fenter eto eleni i gynnal arlwy llawn gydol y dydd yn y babell wyddoniaeth. Yn dilyn gweithdai arbenigol mewn gwyddoniaeth a chyfrifiadurol yn ein ysgolion cyfun mae gwirfoddolwyr o'r ysgolion hynny yn cynnal sesiynau gwyddonol ar y thema 'penblwydd' ac yn arwain gweithgareddau cyfrifiadurol cyffrous. Gallwch chi hefyd yrru tren o Bonty i Gaerdydd, heb gael gwrthdaro os yn bosib!

Technocamps are working with Menter laith again this year to ensure a day full of activities in the science area. Following expert sessions in our comprehensive schools, young volunteers from these schools are running activities such as birthday science experiments and computing chaos! You can also drive a train from Ponty to Cardiff, if you promise not to crash!



technocamps
Inspiring | Creative | Fun
Ysbrydoledig | Creadigol | Hwyl



ARDAL CELF A CHREFFT ARTS AND CRAFTS AREA

Ardal greadigol i bawb gyda gweithdai celf a chrefft amrywiol.

Artis Cymuned– Dewch i addurno baneri a fynegi barn am yr ŵyl!

Amgueddfa Pontypridd – Prosiect arbennig gyda artist lleol yn arwain yn archwilio i fewn i'ch amgueddfa delfrydol Cymraeg.

Jac Do - Dewch i beintio ac addurno!

Staff gwasanaethau plant Menter laith Celf a chrefft i ddathlu penblwydd y Fenter yn 25!

Siôn Tomos Owen – Cartŵns Parti Ponty 17

Ave a go ceramics

Peintio gwynebau

A creative area for everyone with a range of arts and crafts workshops.

Artis community – Come and decorate bunting and tell us what you think of the festival!

Pontypridd museum – An unique project led by a local artist exploring your ideal Welsh museum.

Jac Do – Come and paint and decorate!

Menter laith's Children's services staff – Arts and crafts to celebrate our 25th birthday!

Siôn Tomos Owen – Parti Ponty 17 Cartoons

Ave a go ceramics

Face painting





GWEITHIO GYDAG ERAILL... WORKING WITH OTHERS...

Y BABELL PANED A CHACEN • TEA AND CAKE TENT

MERCHED Y WAWR

Mae Merched y Wawr yn dathlu penblwydd yn 50 yn 2017! Mudiad Cymreig a Chymraeg yw Merched y Wawr, sy'n rhoi'r cyfle i ferched o bob oedran i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae croeso cynnes i ferched sy'n dysgu Cymraeg.

Un o brif amcanion Merched y Wawr yw hyrwyddo Cymreictod ym mhob ardal o Gymru, ac maent hefyd yn ymgychu dros hawliau'r iaith Gymraeg a hawliau merched.

Mae Cangen Pontypridd yn cwrdd ar yr ail nos lau o'r mis â rhai o'r gweithgareddau diweddar yn cynnwys: Trefnu a chynnal Cyngerdd Telynu, Triplau, Gwersi loga a darlithoedd o bob math.

In 2017 Merched y Wawr are celebrating their 50th birthday! Merched y Wawr is a Welsh language organisation giving girls of all ages an opportunity to socialise through the medium of Welsh. Girls who are learning Welsh are also welcome.

One of Merched y Wawr's main aims is to promote the Welsh language all over Wales and they also campaign for women's rights and rights related to the Welsh language.

The Pontypridd branch meet on the second Thursday of the month and some of their recent activities include: Organising a harp recital, Trips, Yoga lessons and lectures of all sorts.

Cysylltwch â'r ysgrifennydd, Cerys Webber am fwy o wybodaeth / Please contact the secretary Cerys Webber for more information :

07876 758658 neu/ or oernant6989@gmail.com



PARÊD • PARADE

Mae dawnswyr Artis Cymuned o ledled y Sir yn gorymdeithio trwy ganol tref Pontypridd i ddathlu dechrau'r Wyl. Mae'r parêd yn dechrau y tu allan i'r YMCA am 11yb ac yn cyrraedd y safle erbyn 11:30 gobeithio. Ymunwch yn yr hwyl trwy gerdded gyda ni a dysgu chydig o ddawnsfeydd syml. Mae cyfle hefyd i gymryd rhan mewn gweithdy dawn ac i wylu ambell berfformiad dawn ychwanegol y fan hyn a'r fan draw.

Artis Community's dancers from all around the county are parading and dancing down Ponty's high street to mark the beginning of the festival. The parade starts outside the YMCA at 11am and arrives on site at about 11:30. Join in the fun by parading with us and by learning a few simple steps. There is also a dance workshop and a chance to see some performances scattered here and there.



BLASU'R GYMRAEG • TASTE OF WELSH

Mae Menter iaith, Cymraeg i Oedolion a BID Pontypridd wedi uno i greu darpariaeth newydd ym Mhontypridd eleni. Mae caffis y dref yn hyrwyddo'r ac yn cynnig geirfa syml i gwsmeriaid er mwyn eu galluogi i ofyn am banded neu gacen yn Gymraeg. Mae staff y caffis wedi derbyn hyfforddiant ar ffurf sesiwn flasu gyda swyddogion o Gymraeg i Oedolion. Felly ewch i ddefnyddio'ch Cymraeg yn y caffis.



*Gweithgareddau i ddysgwyr hefyd yn y bawell paned a chacen – (Rhestr ar amserlen yr ŵyl)

Menter iaith, Welsh for Adults and BID Pontypridd have joined forces to create a new service in Pontypridd. All the cafes are promoting the festival as well as offering simple sentences and vocabulary for customers to be able to ask for a 'paned' or a 'cacen' in Cymraeg. The staff in those cafes have also had a training session with Welsh for Adults to enable them to reply in Welsh. So go and order a 'paned' in one of the fabulous cafes in town

*Activities for Welsh learners also in the tea and cake tent – (Listed on the festival timetable)

STONDINAU BWYD • FOOD STALLS

Ffwrnes Pizza

Hogi, Hogi, Hogi

The Grazing Shed

Mr Croquewich

Big Fish Little Fish

Mr Mikey Ice cream

Pabell paned a chacen / Tea and cake tent - Merched y Wawr, Sainsburys Pontypridd & Café Royale, Pontypridd

Sunset Sweets



STONDINAU ERAILL • OTHER STALLS

Amgueddfa Pontypridd Museum

Artis Cymuned / Artis Community

Ave a go ceramics

BBC Bitesize

Cant a mil vintage

Carfan nofio perfformiad RhCT / RCT Performance swim squad

Carw Piws

Clwb y Bont

Coleg y Cymoedd

Cyfarchion

Cymunedau'n gyntaf / Communities First

Cymraeg i oedolion Morgannwg / Glamorgan Welsh for adults

Cyngor Rhondda Cynon Taf / Rhondda Cynon Taf Council

Creasion / Siôn Tomos Owen

Gemwaith Hannah Megan Jewellery

Gwaith pren Vickie Hatch / Vickie Hatch Woodwork

Gwasanaethau Plant Menter iaith RhCT Children's services

Jac Do

Merched y Wawr

Mudiad Meithrin

Rhiannon art

Sainsburys

Stwff

Urdd

Welsh cake stall Marchnad Pontypridd Market Welsh cake stall



Diwrnodau i'w Cofio Great Days Out

RHONDDA CYNON TAF

CROESO I | VISIT
RHONDDA CYNON TAF



PARC TREFTADAETH CWM RHONDDA TAITH PYLLAU GLO CYMRU

Diwrnod hwyl i'r teulu cyfan mewn pwll glo go iawn yng Nghymoedd y De. Mwynhewch Daith yr Aur Du gyda theithiau tywys o dan ddaear, ewch â'r plant i ardal chwarae'r Parth Ynni ac ymlaciwch a bwytwch yng Nghaffi Bracchi.



RHONDDA HERITAGE PARK WELSH MINING EXPERIENCE

A great day out for the entire family at an authentic South Wales Valley coal mine. Enjoy the Black Gold Experience with its underground guided tour and learn about the international story of Welsh coal. Take the children to the Energy Zone play area and relax & refuel at Caffi Bracchi.

LIDO PONTY LIDO CENEDLAETHOL CYMRU

Nofiwch yn ein pyllau twym beth bynnag yw'r tywydd! Mwynhewch yn y pwll gweithgareddau a manteisio ar y gweithgareddau hwyl - cychod llaw, teganau gwynt, olwynion sorbio a llawer yn rhagor!



LIDO PONTY NATIONAL LIDO OF WALES

Swim in our heated pools whatever the weather! Get drenched in the activity pool and enjoy the hand boats, inflatable, zorbing wheels and much more!

CEGAID O FWYD CYMRU 2017

Dydd Sadwrn 5 - Dydd Sul 6
Awst, 11am - 5pm
**Parc Cofa Ynysangharad,
Pontypridd**

Mae gŵyl fwyd Cymru flynyddol yn dychwelyd - bydd seidr o Gymru, hufen iâ, caws sy wedi ennill gwobrau a llawer yn rhagor!

MYNEDIAD AM DDIM



BIG WELSH BITE 2017

Saturday 5th - Sunday 6th
August, 11am - 5pm
**Ynysangharad War
Memorial Park, Pontypridd**

The annual Welsh food festival returns - featuring Welsh cider, ice-creams, award winning cheeses and so much more!

FREE ENTRY

Am ragor o ddiwrnodau i'w cofio | For more great days out

www.croesorhct.cymru
www.visitrct.wales



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR